

# **ADRODDIAD BLYNYDDOL FFORWM MYNEDIAD LLEOL RHONDDA CYNON TAF 2018**

## **Cyflwyniad**

Mae Adroddiad Blynyddol Fforwm Mynediad Lleol Rhondda Cynon Taf (FfMLI RhCT) 2018 yn grynodedd o brif lwyddiannau'r Fforwm yn ystod 2018, yn ogystal ag argymhellion ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'r flwyddyn wedi bod yn anarferol oherwydd niferoedd uchel o newidiadau mewn aelodau ac oherwydd mae aelodau'r FfMLI wedi ymateb i effaith toriadau gwariant ddifrifol trwy feddwl yn ddifrifol am sut y gallen nhw gyfrannu ymhellach i liniaru'r toriadau yma (er enghraifft, lluniodd y FfMLI ddrafft o'r adroddiad yma ar gyfer yr awdurdod yn lle'r gwrthwyneb).

Mae CBSRhCT yn diolch i aelodau'r FfMLI am eu hymdrechion, ac am eu cefnogaeth a'u harweiniad drwy gydol y flwyddyn.

Mae holl gyfarfodydd y FfMLI yn agored i'r cyhoedd, ond daeth dim pobl heb wahoddiad i gyfarfodydd yn 2018.

## **Trosolwg**

Mae gan FfMLI RhCT rhwng 10 a 22 aelod unigol wedi'u penodi mewn swyddogaeth wirfoddol i roi cyngor i sawl awdurdod y llywodraeth a chyrrff eraill ar sut i ddarparu mynediad i dir ar gyfer achlysuron hamdden a mwynhau'r awyr agored. Caiff aelodau eu penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae FfMLI RhCT yn dra ymwybodol o gynrychiolaeth rheolwyr cadwraeth, twristiaeth, trafnidiaeth a thir yn ogystal â defnyddwyr sy'n agored i niwed, sy'n anabl neu sydd â chyfyngiadau.

Nod y Fforwm yw cydbwysu'r awydd i gael rhagor o fynediad cyhoeddus i ardaloedd cefn gwlad ag anghenion y tirfeddianwyr a'r rheolwyr tir, yn ogystal â sicrhau nad yw'r amgylchedd naturiol yn cael ei ddifrodi o ganlyniad i hyn. Gall hefyd roi cyngor i gynllunwyr datblygiadau tai a thrafnidiaeth mawr ynghylch amddiffyn hawliau tramwy cyhoeddus presennol ac ymgorffori anghenion pawb i gael mynediad i'r awyr agored (o fis Mai 2018 ymlaen mae rhaid i ddatblygwyr ddangos Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar eu mapiau).

## **Aelodaeth a recriwtio**

Ym mis Ionawr 2018, roedd yna broses recriwtio oherwydd doedd dim cworwm yn y FfMLI, a chyflwynodd hyn well amrywiaeth ymhlith yr aelodau newydd. Roedd y FfMLI yn drist i glywed bod y Cadeirydd, Steve Carter, wedi ymddiswyddo, ond yn falch i groesawu Pat Byrne fel Cadeirydd newydd. Mae Steve yn parhau i fod yn aelod gwbl weithredol o'r FfMLI, ac yn eiriolwr brwd dros faterion mynediad. Ymddiswyddodd Mike Ash (sy'n adnabyddus am ei waith caled yn gysylltiedig â dadorchuddio ffyrdd plwyf y Rhondda) fel Is-Gadeirydd ac mae aelod o'r FfMLI, Jamie Lewis, wedi cymryd ei le fel Is-gadeirydd.

## **Cyfarfod Cadeiryddion y Fforymau Mynediad Lleol yng Nghymru**

Mae FfMLLau ledled Cymru yn cynnal cyfarfodydd cenedlaethol yn rheolaidd. Tony Yule, un o'r aelodau hir-sefydlog, oedd yn cynrychioli FfMLI RhCT yng nghyfarfod y Cadeiryddion, a daeth ei adroddiad ym mis Ionawr 2018. Cafodd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru "Symud Cymru Ymlaen" ei drafod ar raddfa helaeth. Daeth mwyafrif yr ymatebion gan grwpiau ymgyrchu ac roedd y FfMLI eisiau bod mwy o bwyslais gan safbwyntiau mwy cytbwys y FfMLI. Mae yna ddadlau o hyd ynghylch mynediad at ddŵr a defnyddwyr eraill ar y llwybrau

troed, a rhagor o gytundeb ar Fap Digidol Cymru Gyfan, rheolau newydd ar gyfer cŵn sy'n mynd yn agos at dda byw a newidiadau i weithdrefnau'r Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Mae FfMLI RhCT yn rhagweld siwrnai hir o'i flaen.

Awgrym arall a oedd hefyd yn berthnasol ar gyfer RhCT oedd y dylai'r FfMLI fod yn rhanddeiliaid ym mhrosiectau Glastir Cyfoeth Naturiol Cymru oherwydd efallai bydd coetiroedd yn effeithio ar gyflenwadau dŵr a golygfeydd.

Nododd cynrychiolydd y FfMLI gyd-weithdrefnau er mwyn gwneud fforymau'n fwy effeithiol. Mae FfMLI RhCT wedi mabwysiau rhai ohonyn nhw, neu wrthi'n cael eu mabwysiadu, er enghraifft y rhai sy'n ymwneud â'r berthynas waith gyda'r cyngor, yr Adroddiad Blynyddol a'r rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan gynnwys ysbrydoli'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (ROWIP).

## **Cyflwyniadau i Fforwm Mynediad Lleol 2018, a chyngor y mae'n ei gynnig.**

### **Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (ROWIP): yr Adolygiad**

Roedd swyddogaeth a chyfraniad parhaus y FfMLI tuag at ROWIP RhCT yn eitem ar yr agenda ym mhob cyfarfod chwarterol y FfMLI. Cafodd cymorth ei gynnig gan is-grŵp. Yr hyn sy'n llywio'r Adolygiad yw deddfau cenedlaethol, hynny yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Deddf Teithio Llesol (Cymru), yngyhyd â Chynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf. Mae ychwanegiadau newydd yn 2018 yn cynnwys gweithio gyda'r Metro, croesfannau rheilffyrdd, llwybrau wedi'u hyrwyddo a gweithio gyda gwasanaethau twristiaeth. Mae aelodau'r FfMLI wedi bod yn amlwg o ran cwmpasu'r olaf.

Yn ystod 2018, cynorthwyodd FfMLI RhCT gyda sgwrs ymgynghorol trwy gysylltiadau â sefydliadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol; roedd hyn yn llywio'r ymarfer casglu data gan gynnwys i ba raddau y mae hawliau tramwy lleol yn diwallu anghenion presennol y cyhoedd, yn ogystal ag anghenion y dyfodol; cynghori ar sut i wella rhwydwaith y cyhoedd, a nodi lle mae pryderon penodol ynghylch rheoli tir; cynghori ar fynediad i ardaloedd cefn gwlad agored sy'n achosi problemau; gwneud sylwadau ar gynlluniau drafft sy wedi'u cyhoeddi; a chynorthwyo i ddatrys gwrthdaro.

Cafodd cynllun drafft diwygiedig ei gymeradwyo i'w gyhoeddi ym mis Mehefin ar gyfer yr ymgynghoriad statudol deuddeg wythnos. Yn ogystal â'r ymgynghoriad ffurfiol ar-lein a phapur, llwyddodd aelodau is-grŵp y FfMLI i ychwanegu trafodaethau llai ffurfiol gyda grwpiau neu unigolion gan ddefnyddio cwestiynau'r arolwg, a chafodd y canlyniadau eu bwydo i'r broses ymgynghori. Ar ôl craffu, mae'r cynllun terfynol yn mynd i Gabinet RhCT.

### **Llwybr ceffylau o Aberdâr i Bontypridd**

Mae'r llwybr yma wedi'i ddadfeilio, ac mae FfMLI RhCT yn annog yn ffurfiol bod y llwybr yma'n cael ei gynnwys fel rhan o'r ROWIP ac i argymhell cynigion ar gyfer cynnal a chadw'r llwybr yn y dyfodol. Bydd rhaid ymgymryd â chwmpas y prosiect ar y cyd â chysylltiadau twristiaeth RhCT.

Agorodd y llwybr yn 2012, llwybr 14 milltir sy'n mynd o Barc Gwledig Cwm Dâr i Barc Cefn Gwlad Barry Sidings trwy Lanwynno, gan ddefnyddio llwybrau caniataol, a choedwigaeth a chynnwys lleoedd i aros i feicwyr a cheffylau yn Porth ac Aberdâr.

### **Cyfoeth Naturiol Cymru**

Mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) swyddogaeth i arsylwi FfMLI RhCT. Cyflawnodd Sarah Tindall a Chris Heaps hyn yn 2018. Rhoddodd CNC grynodedd o swyddogaethau'r FfMLI ar lefel genedlaethol a darparu arweiniad amhrisiadwy i aelodau newydd FfMLI RhCT. Rhoddodd arsylwr CNC eglurhad ar ymholiadau'r FfMLI ynghylch tir mynediad agored a chyfrifoldebau am strwythurau.

## **Mabwysiadu Llwybr ac Ymgysylltu â'r Gymuned ar y Graig: Prifysgol De Cymru**

Fel rhan o fodiwl ymgysylltu â'r gymuned, rhoddodd myfyrwyr Daearyddiaeth o Brifysgol De Cymru gyflwyniad ar Adran y Graig yng yn Nhaith Gylchol Pontypridd. Roedden nhw'n gobeithio hyrwyddo, datblygu a chynyddu defnydd ac ymwybyddiaeth o'r llwybr ac ehangu cynllun **Mabwysiadu Llwybr RhCT**. Roedd achlysur terfynol llwyddiannus ym mis Mai 2018.

Dolenni Facebook: Mabwysiadu Llwybr - Llwybr y Graig Twitter: @AdoptAPath Instagram: adoptapath

Mae gwirfoddolwyr Mabwysiadu Llwybr yn arolygu'r rhwydwaith ond nid yw'n ofynnol iddyn nhw gymryd camau ymarferol. Cynghorodd y Fforwm bod angen i bobl wybod sut i roi gwybod am broblemau a pha fesurau sydd ar waith. Mae FfMLI RhCT yn cynghori rôl ar gyfer Cadwch Gymru'n Daclus sy'n darparu yswiriant er mwyn i bobl weithio ar lwybrau troed.

## **Prosiect Llethrau Iach gan Swyddog yr Amgylchedd CNC**

Dechreuodd y prosiect ym mis Ionawr 2018, a derbyniodd y Fforwm gyflwyniad ar y prosiect yma yn ystod y cam cynllunio. Mae'r cynllun wedi'i roi ar brawf ar 8 safle (Cwm Clydach, Penrhys Fach, Penrhys Fawr, Hengoed, Tylorstown, y Gurnos, Castell Nos a'r Graig, Llantrisant). Mae yna bryder bod yr eco-systemau'n cael eu difrodi dro ar ôl tro oherwydd tanau gwyllt, yn enwedig ar dir yn llawn rhedyn lle does dim digon o anifeiliaid yn pori. Y nod yw lleihau'r llwyth tanwydd trwy leihau rhedyn ac annog rhagor o anifeiliaid i bori. Ar hyn o bryd mae CNC yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Tân, sy'n rheoli rhwystrau tân a'r defnydd o'r rhain fel llwybrau troed, ac mae'r Heddlu wedi bod trafod sut y gallen nhw reoli'r ymddygiad o gynnu tân.

Mae'r prosiect yn cynnig codi ffensys dros y tir mynediad agored a chyflwyno tir pori dwysedd isel. Y gobaith yw y bydd cymunedau'n cymryd rhan. Bydd codi ffensys yn yr ardaloedd yma yn ddrud oherwydd natur y tir ac oherwydd bod angen am ffensys proffesiynol.

Cododd aelodau'r FfMLI faterion ynghylch defnyddio ffensys o amgylch tir agored sy'n atal mynediad ac sydd ddim yn ddeniadol yn weledol. Dywedodd y FfMLI fod cyfyngiadau Deddf CROW mewn perthynas â Mynediad Agored a Thir Cyffredin a bydd rhaid cadw mynediad.

## **Adfywio a mynediad: Partneriaeth Adfywio Ynys-y-bŵl – Louisa Addiscott - Rheolwr y Rhaglen**

Cafodd y FfMLI gyflwyniad yn trafod prosiect sy'n cysylltu cyfleoedd menter â seilwaith mynediad presennol o goedwigaeth a'r amgylchedd naturiol sy'n amgylchynu Ynys-y-bŵl. Ochr yn ochr â'r datblygiad posibl ar safle Lady Windsor y mae'r trac beicio sy'n arwain at orllewin Cymru, hen ffordd tramiau i mewn i'r goedwigaeth, hen drac trenau sydd â photensial i'w ddatblygu, llwybr i bwll padlo a 3 llwybr coedwig. Mae'r gwaith yn cael ei wneud gyda grwpiau yn y gymuned, gan annog mynediad a cherdded yn ddyddiol. Mae ganddyn nhw ganiatâd cynllunio ar gyfer Canolfan i Ymwelwyr, a gweledigaethau tymor hir o lwybrau cylchol a llwybrau ceffylau.

Mae'r grŵp eisiau gweithredu arwyddion a byrddau gwybodaeth gwell, ac wrth i'r prosiect ddatblygu bydd yna gyhoeddusrwydd ar-lein gyda'r nod y bydd rhagor o bobl yn mynd i'r pentref ac yn cyfrannu at y Ddeddf Iechyd a Lles a Theithio Gwyrdd. Mae hyn oll yn mynd rhagddo o ganlyniad i waith gan wirfoddolwyr yn Ynys-y-bŵl. Yr amcangyfrif yw bod 30,000 o bobl ar gyfartaledd yn defnyddio'r goedwigaeth bob blwyddyn.

## **Teithio Llesol a Llwybrau Diogel ar gyfer Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif 2018**

Mae'r FfMLI yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd ac yn gwneud awgrymiadau ar ddatblygiadau gan y Cynlluniwr Trafnidiaeth Strategol ac aelodau'r FfMLI. Mae'r dudalen Teithio Llesol ar wefan RhCT yn cynnwys y Mapiau Rhwydwaith Integredig (INM) sydd wedi'u cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Awgrymodd y FfMLI bod y llwybrau teithio llesol arfaethedig yn cael eu hymgorffori yn un o haenau MyRhonddaMaps ar-lein, yn hytrach na bod yr IMN ar dudalen wahanol. Dolen: <http://my.rctcbc.gov.uk/myRhondda.aspx> Mae RhCT wedi rhoi cefnogaeth ffurfiol i Gymdeithas Twannel y Rhondda er mwyn ailagor Twannel y Rhondda - i ddod yn atyniad i dwristiaid a rhoi hwb i'r economi leol, ynghyd â galluogi preswylwyr yng Nghastell-nedd Port Talbot, sy'n teithio i Gaerdydd, i ddefnyddio'r twannel er mwyn cyrraedd yr orsaf reilffordd yn Nhrefherbert ac yna parhau â'u taith ar y trê. Mae cais yn cael ei baratoi ar gyfer cynlluniau trawsffiniol strategol a fydd yn cysylltu a'r cynllun arfaethedig i ailagor twneli y Rhondda a Merthyr Tudful i feicwyr a cherddwyr. Bydd twannel Merthyr Tudful / Abernant yn gwella cysylltiadau i drigolion sydd angen teithio rhwng y ddau gwm i weithio, astudio neu siopa, a bydd trigolion yn defnyddio'r twannel ar gyfer beicio neu gerdded fel dewis arall yn lle gyrru drosto. Yn ogystal â hyn, bydd rhwydwaith y Metro yn ehangu'r gronfa lafur sydd ar gael i fusnesau lleol. Mae cynlluniau eraill yn lleol ac wedi'u hanelu at wella llwybrau teithio llesol presennol a'u codi i safonau cyfredol, neu'r posibilrwydd o alinio llwybrau posibl. Yn ddiweddar, cafodd llwybr teithio llesol newydd ei adeiladu yn Ystrad gan ddarparu cyswllt â'r orsaf drenau, Ystâd Ddiwydiannol y Gelli, ysgolion lleol a'r Ganolfan Hamdden.

O ran **Cynlluniau Llwybrau Diogel mewn Cymunedau**, mae'r Cyngor wedi bod yn canolbwyntio ar wella'r llwybrau cerdded a beicio newydd fel rhan o'r rhaglen ail-drefnu **Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif**. Awgrymodd y FfMLI yr angen am lwybr a llwybr beicio addas rhwng ysgol 3-16 oed, i ganol tref Pontypridd, heb fynd trwy Drallwn. Ar hyn o bryd mae cyfyngiadau cyflymder o 50mya er mwyn leihau allyriadau ar yr A470 gerllaw. Os bydd y llwybr beicio'n cael ei symud i ffwrdd o ardal lygredig byddai hyn yn gyfle i'r plant ysgol ddefnyddio Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Y nod yw y bydd y llwybrau penodol yn ddiogel ac yn addas i blant ac yn gwella ansawdd yr aer ar y llwybrau arfaethedig. Mae carfan iechyd yr amgylchedd wedi nodi ystod o fesurau i fynd i'r afael ag ansawdd aer yn yr ardal ac nid dim ond symud llwybr gweithredol.

Y llynedd cafodd canllaw teithio cynaliadwy ar gyfer Pontypridd ei lunio (gellir gweld copi ar y wefan) ac mae'r Cyngor yn gobeithio derbyn cyllid eleni i gyhoeddi ailargraffiad yn ogystal â pharatoi canllaw tebyg ar gyfer ardal y Rhondda.

Nododd y FfMLI fod cynlluniau teithio llesol wedi'u hanelu at gerddwyr a beicwyr ar deithiau rheolaidd i'r siopau ac i'r gwaith ac ati ac nid trigolion sy'n mynd ar deithiau hamdden.

Dyweddodd y FfMLI hefyd y dylai mannau gwefru gael eu darparu yng nghanol y trefi ar gyfer sgwteri symudedd.

## **Rhaglen ar gyfer y flwyddyn i ddod**

### **Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (ROWIP)**

Bydd y FfMLI yn darparu cymorth i weithredu'r ROWIP. Bydd hyn yn eitem sefydlog ar agenda'r cyfarfodydd.

### **Llwybrau Diogel ac Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif**

Bydd y FfMLI yn cynorthwyo i nodi llwybrau addas i blant ysgol gerdded yn ddiogel yn ôl ac ymlaen i'r ysgol gan osgoi ardaloedd llygredig.

### **Cynllun y 'Woodland Classroom'**

Bydd y FfMLI yn edrych ar y prosiect yma i weld os oes modd nodi ardaloedd eraill a allai elwa yn ogystal â darparu mynediad wedi'i gofnodi. Mae'r ysgol gynradd wedi dod o hyd i ystafell ddosbarth yn ddyfnach i'r coetir. Mae mynediad yn anodd a does dim hawl tramwy o'r briffordd. Dywedodd y FfMLI mai llwybr troed wedi'i gofnodi yw hyn ar hyn o bryd ac y byddai'r ysgol yn gyfrifol am gwblhau unrhyw Aseidiadau Risg a Goruchwyliaeth. Nod y prosiect yw darparu llwybr diogel er mwyn galluogi plant i fod allan yn yr awyr agored, gan hybu iechyd a lles a gwell addysg.

## **Cynllun Ymgysylltu**

Nododd Is-gadeirydd yr LAF fod cynrychiolaeth gref o rai grwpiau, a llai o grwpiau eraill, ymhlith aelodau'r FfMLI. Cafodd yr achos ei wneud dros fuddion ymgysylltu â grwpiau perthnasol oedd ddim wedi'u cynrychioli ar y FfMLI. Yn 2019, bydd cynllun ymgysylltu yn cael ei gwmpasu a'i weithredu os caiff ei gymeradwyo.

Mae gweithgor FfMLI yn cynnal Mapio Rhanddeiliaid (pa grwpiau sy wedi'u cynrychioli ar y fforwm ar hyn o bryd a pha fathau eraill o grwpiau sydd yn bodoli), pwyntiau cyswllt ar gyfer y grwpiau a sut orau i'w cynnwys yng ngwaith y Fforwm Mynediad Lleol.

Wedi'i baratoi gan Fforwm Mynediad Lleol Rhondda Cynon Taf